*These notes refer to the Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (c.1) which received Royal Assent on 27 Ionawr 2014*

# DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH (LLYWODRAETHU A GWYBODAETH) (CYMRU) 2014

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU A'R ATODLENNI

#### *Adran 1 – Benthyca a buddsoddi gan gorfforaethau addysg bellach*

8. Mae adran 19 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth i CABau gael amryw bwerau atodol. Effaith y diwygiadau y mae'r adran hon yn eu gwneud i adran 19 yw dileu'r gofyniad i CABau yng Nghymru gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn iddynt arfer pwerau atodol penodol. Y pwerau o dan sylw yw eu pwerau i fenthyca arian, i ffurfio cwmni neu i fuddsoddi mewn cwmni, neu i ddod yn aelod o sefydliad elusennol corfforedig at ddibenion cynnal sefydliad addysgol.